

## Dull gweithredu yn seiliedig ar hawliau plant ar gyfer addysg yng Nghymru

Mae [fframwaith](#) y Comisiynydd Plant ar gyfer lleoliadau addysgol yn ddull egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant. Mae'n rhoi hawliau dynol plant wrth wraidd eu profiad o addysg. Datblygwyd y fframwaith ar gyfer lleoliadau addysg yng Nghymru a chyda nhw, ac mae'n cynnwys astudiaethau achos o ddulliau hawliau dynol mewn ystod o leoliadau, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer ar draws y sector addysg, gan gynnwys darparwyr y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, AAA, addysg bellach a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (AHY).

Mae'r ddogfen hon yn offeryn hunanasesu i arweinwyr, gweithwyr proffesiynol a llywodraethwyr mewn lleoliadau addysg. Mae wedi'i seilio ar ddangosyddion allweddol dull hawliau dynol sydd wedi'i amlinellu yn fframwaith y Comisiynydd. Bydd yn cynorthwyo lleoliadau i amlygu agweddau ar ddull hawliau plant y maent yn eu rhoi ar waith eisoes, ac amlygu rhagor o feysydd i'w datblygu.

### Sut i ddefnyddio'r templed hunanasesu hwn

Caiff lleoliadau eu hannog i lenwi'r hunanasesiad hwn fel uwch dîm arweinyddiaeth ac ã'u corff llywodraethol. Mae rhai syniadau wedi'u cynnwys o ran sut gallech fynd ati i roi 5 egwyddor ein fframwaith ar waith. Mae cyfle i chi rhoi statws Coch, Melyn, Gwyrdd o ran cyflawni pob un o'r egwyddorion (**gwyrdd = yn ei rhoi ar waith yn llawn**, **melyn = ar y gweill**, **coch = dim gwaith wedi'i nodi**). Yna, gofynnir i chi greu amcanion CAMPUS yn erbyn pob un o'r egwyddorion i sicrhau cydymffurfedd ac unigolion arweiniol ar gyfer pob maes gwaith. Gall lleoliadau ddefnyddio'r templed hwn i fesur cynnydd a rhoi adborth ar gynnydd i'r corff llywodraethol a chymuned ehangach yr ysgol.

Egwyddor 1	Gwreiddio hawliau plant – rhoi hawliau plant wrth wraidd cynllunio a chyflawni ysgol gyfan. Gallwch wneud y canlynol i wreiddio hawliau plant:					
<b>Camau gweithredu</b>	Datblygwch <b>weledigaeth strategol glir</b> i wreiddio dull hawliau plant. Mae angen i arweinwyr yn eich lleoliad hyrwyddo'r weledigaeth hon a sicrhau bod yr holl staff yn ei deall.	Llenwch yr offeryn hunanasesu hwn i greu cynllun gweithredu â thargedau penodol, mesuradwy gydag amser wedi'i bennu, sydd wedi'u seilio ar ein fframwaith Hawliau Plant .	Nodwch <b>unigolion neu dîm allweddol</b> sy'n gyfrifol am ddwyn eich cynllun gweithredu ymlaen a chynorthwyo pobl eraill i ddatblygu eu harfer. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn eu proses rheoli perfformiad ac arfarnu.	Sicrhewch fod yr <b>holl staff yn cael dysgu proffesiynol</b> i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA), yn unol â gofynion cyfreithiol y cwricwlwm.	Sicrhewch fod rhieni a goflawyr yn gwybod bod hawliau dynol plant yn bwysig i'ch lleoliad a chynnwys CCUHP a CCUHPA yn eich <b>cyfathrebiadau a'ch digwyddiadau</b> : Gallwch ddefnyddio ein <a href="#">canllaw i rieni ar hawliau plant</a> i wneud hyn.	Sicrhewch eich bod yn cysylltu hawliau dynol plant â'r <b>pedwar diben</b> a'r chwe <b>Maes Dysgu a Phrofiad</b> . Gallwch ddefnyddio ein <a href="#">map hawliau'r cwricwlwm</a> i gefnogi hyn.
<b>Statws Coch/Melyn/Gwyrdd cychwynnol</b>						
<b>Pennwch nod CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)</b>						
<b>Pwy sy'n arwain?</b>						

Egwyddor 2	Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau y gall fod.				
<p><b>Camau gweithredu</b></p>	<p>Cynhwyswch ymrwymiad clir i gymryd camau yn erbyn camwahaniaethu ar unrhyw sail mewn polisïau a gweledigaeth, a'i rannu â chymuned yr ysgol fel neges glir a chyson.</p>	<p>Cefnogwch blant a phobl ifanc i sefyll yn weithredol yn erbyn gwahanol fathau o gamwahaniaethu.</p> <p>Er enghraifft, bydd adnodd <a href="#">Taclu Islamoffobia</a> yn cynorthwyo eich lleoliadau i gymryd camau cyflym yn erbyn camwahaniaethu wedi'i seilio ar ffydd.</p>	<p><b>Casglwch ddata perthnasol</b>, gan gynnwys data wedi'i ddadgyfuno, i amlygu camwahaniaethu neu anghydraddoldeb er mwyn adnabod plant a all wynebu camwahaniaethu.</p>	<p>Datblygwch raglenni gweithredu wedi'u targedu i sicrhau cydraddoldeb i grwpiau o blant sy'n cael eu hallgau, eu hymyleiddio'n gymdeithasol ac sy'n ddifreintiedig. Mewn rhai achosion, gall eich grant datblygu disgyblion helpu darparu adnoddau ar gyfer hyn.</p>	<p><b>Gwnewch hi'n ofynnol i wasanaethau a phrofiadau allanol</b>, er enghraifft ymweliadau a gwibdeithiau ysgol, gael eu darparu mewn ffyrdd nad ydynt yn camwahaniaethu yn erbyn plant neu grwpiau o blant. Sicrhewch fod darparwyr allanol yn galluogi plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol i gyfranogi'n llawn mewn profiadau. <a href="#">Gweler yr adnodd Cofia Ceri</a>.</p>
<p><b>Statws Coch/Melyn/Gwyrdd cychwynnol</b></p>					
<p><b>Pennwch nod CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)</b></p>					
<p><b>Pwy sy'n arwain?</b></p>					

Egwyddor 3	Grymuso plant – rhoi'r wybodaeth a'r hyder i blant ddefnyddio eu hawliau a dwyn sefydliadau i gyfrif				
Camau gweithredu	Cynigiwch <b>gyfleoedd i blant weithredu'n gyfunol</b> i ddatblygu syniadau a chynigion i ysgogi newid <b>yn eich lleoliad</b> . Bydd ein <a href="#">hadnoddau i gefnogi cynghorau ysgol</a> yn helpu â hyn.	Gwnewch yn siwr y gall plant ar eich cyngor ysgol a grwpiau eraill llais y disgybl <b>ddylanwadu ar benderfyniadau yn eich lleoliad mewn modd ystyrllon</b> .	Darparwch gyfleoedd, adnoddau ac addysg i blant gymryd <b>camau cyfunol fel dinasyddion moesegol, gwybodus yn eich cymuned ehangach</b> . Mae gan y Comisiynydd Plant becyn offer i gefnogi hyn: <a href="#">Gwneud gwahaniaeth – Canllaw i helpu pobl ifanc creu newid</a> .	Cefnogwch ddysgu ym MDaPhau y Dyniaethau ac Iechyd a Llesiant drwy sicrhau bod plant yn cael gwybodaeth a chyfleoedd i <b>ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau dynol</b> . Defnyddiwch <a href="#">adnoddau'r Comisiynydd Plant</a> i gefnogi hyn a chofrestrwch ar gyfer ein <a href="#">cynlluniau am ddim</a> .	Cysylltwch dysgu â <a href="#">Nodau Llesiant Cymru</a> a'r <a href="#">Nodau Datblygu Cynaliadwy</a> a chynorthwyo plant i weld sut mae eu dysgu'n eu cefnogi i weithredu fel dinasyddion Cymru a'r byd. Mae adnoddau i gefnogi hyn ar gael <a href="#">yma</a> .
Statws Coch/Melyn/Gwyrdd cychwynnol					
Pennwch nod CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrdd)					
Pwy sy'n arwain?					

Egwyddor 4	Cyfranogiad – gwranddo ar blant a chymryd eu safbwyntiau o ddifrif (fel sy'n cael ei warantu gan Erthygl 12 CCUHP). Gwnewch y canlynol er mwyn i blant allu cyfranogi.				
Camau gweithredu	Cynhwyswch ymrwymiad clir i gyfranogiad cynhwysol plant mewn polisiau a datganiadau allweddol.	Mabwysiadwch saith <a href="#">Safon Cyfranogiad Cenedlaethol</a> a datblygu ymwybyddiaeth o'r rhain ymhlith yr holl staff a llywodraethwyr.	Cydnabyddwch fod gwahanol lefelau o gyfranogiad sy'n berthnasol i wahanol amgylchiadau. Gall <b>model cyfranogiad</b> , fel yr enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn ein <a href="#">hesboniad o gyfranogiad i athrawon</a> , helpu i egluro'r gwahanol fathau o gyfranogiad y gallwch eu defnyddio.	<b>Cynhwyswch blant mewn:</b> dylunio ac adolygu eich cwricwlwm; recriwtio staff a llywodraethwyr; penderfyniadau am gyllideb yr ysgol; dewisiadau yn ymwneud â dysgu.	Rhowch <b>adborth</b> i blant a staff ar ddeilliannau cynnwys plant, gan amlygu unrhyw newidiadau a rhesymau pam na ystyriwyd eu syniadau.
Statws Coch/Melyn/Gwyrdd cychwynnol					
Pennwch nod CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)					
Pwy sy'n arwain?					

Egwyddor 5	Atebolrwydd – mae gan sefydliadau ac aelodau staff unigol sy'n gweithio â phlant 'ddyletswydd', a dylid eu dwyn i gyfrif am ba mor dda maent yn cefnogi plant i fanteisio ar eu hawliau. Gwnewch y canlynol i fod yn atebol i blant.				
<b>Camau gweithredu</b>	Aseswch eich dull hawliau plant gan ddefnyddio'r <b>offeryn hunanasesu</b> hwn, a'i ddefnyddio i nodi meysydd allweddol i'w gwella. Cynnwys plant yn yr asesiad hwn ac mewn nodi meysydd i'w datblygu.	Galluogwch blant i <b>gymryd rhan mewn monitro'r targedau</b> yn eich <b>Cynllun Datblygu Ysgol</b> ; gallwch ddefnyddio grwpiau llais y disgybl i gefnogi hyn.	<b>Rhowch adborth i blant yn rheolaidd mewn fformat addas.</b> Gallech ddefnyddio'r model 'Dywedoch chi, Gwnaethon ni.: sef rhestru sylwadau ac awgrymiadau pobl ifanc mewn un golofn, a dweud yn glir sut y defnyddiwyd y wybodaeth yn y golofn nesaf.	Crewch fersiwn o'r <b>adroddiad blynyddol gan lywodraethwyr</b> sy'n addas i blant.	<b>Darparwch wybodaeth hygyrch</b> am brosesau ar gyfer cwyno am y lleoliad neu aelodau staff unigol, a gwybodaeth hygyrch am sut i gael cyngor neu eiriolaeth.
<b>Statws Coch/Melyn/Gwyrdd cychwynnol</b>					
<b>Pennwch nod CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)</b>					
<b>Pwy sy'n arwain?</b>					